Hawliad Cyflafareddu - nodiadau i'r diffynnydd

Darllenwch y cyfarwyddiadau hyn yn ofalus cyn i chi ymateb i'r ffurflen hawlio cyflafareddu.

Gall staff y llys eich helpu gyda gweithdrefnau ond ni allant roi cyngor cyfreithiol. Os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch, dylech gysylltu â thwrnai neu Ganolfan Cyngor ar Bopeth ar unwaith.

Ymateb i'r hawliad

Os ydych chi:

- yn cael eich enwi fel diffynnydd yn y ffurflen hawlio; a
- chopi ohoni wedi'i chyflwyno i chi,

dylech ymateb trwy lenwi a dychwelyd i swyddfa'r llys y ffurflen cydnabyddiad cyflwyno a amgaewyd gyda'r ffurflen hawlio, o fewn *(14 diwrnod) ( ) i'r dyddiad y'i cyflwynwyd i chi. Ar yr un pryd, rhaid i chi gyflwyno copi i'r hawlydd ac unrhyw barti arall a ddangosir ar y ffurflen hawlio.

Os cafodd y ffurflen hawlio:

- ei hanfon drwy'r post, mae'r *(14 diwrnod) ( ) yn dechrau 2 ddiwrnod gwaith o ddyddiad y marc post ar yr amlen;
- ei chyflwyno i chi neu ei gadael i chi yn eich cyfeiriad, mae'r * (14 diwrnod) ( ) yn dechrau ar yr ail ddiwrnod gwaith ar ôl y diwrnod y'i rhoddwyd i chi;
- ei rhoi i chi yn bersonol, mae'r * (14 diwrnod) ( ) yn dechrau 2 ddiwrnod gwaith ar ôl y diwrnod y'i rhoddwyd i chi.

Y cydnabyddiad cyflwyno

Os ydych:

- yn peidio â llenwi a ffeilio'r cydnabyddiad cyflwyno o fewn yr amser penodedig; neu
- os ydych chi'n datgan nad ydych yn bwriadu herio'r hawliad,

A'ch bod yn newid eich meddwl yn nes ymlaen, ni fydd gennych hawl i herio'r hawliad heb ganiatâd y llys.

Arbitration Claim - notes for the defendant

Please read these guidance notes carefully before you respond to the arbitration claim form

Court staff can help you with procedures but they cannot give legal advice. If you need legal advice, you should contact a solicitor or a Citizens Advice Bureau immediately.

Responding to the claim

If you are:

- named as a defendant in the claim form; and
- served with a copy of it,

you should respond by completing and returning to the court office the acknowledgment of service form which was enclosed with the claim form, within *(14 days) ( ) of the date it was served on you. At the same time you must serve a copy on the claimant and any other party shown on the claim form.

If the claim form was:

- sent by post, the *(14 days) ( ) starts 2 business days from the date of the postmark on the envelope;
- delivered or left at your address, the *(14 days) ( ) starts on the second business day it was given to you;
- handed to you personally, the *(14 days) ( ) starts 2 business days from the day it was given to you.

The acknowledgment of service

If you:

- fail to complete and file the acknowledgment of service within the time specified; or
- if you indicate that you do not intend to contest the claim,

If you later change your mind, you will not be entitled to contest the claim without the court's permission.

© Hawlfraint y Goron 2008

© Crown copyright 2008

Tystiolaeth

Os ydych chi'n dymuno dibynnu ar dystiolaeth gerbron y llys, rhaid i chi ffeilio a chyflwyno'ch tystiolaeth ysgrifenedig cyn pen *(21 diwrnod) ( ) o'r dyddiad y cyflwynwyd y ffurflen hawlio i chi.

Datganiad gwirionedd

Rhaid i chi neu'ch twrnai lofnodi'r cydnabyddiad cyflwyno. Lle nad yw'r cydnabyddiad cyflwyno wedi'i lofnodi gan eich twrnai a'ch bod chi yn gorfforaeth neu'n gwmni cofrestredig, rhaid iddo gael ei lofnodi naill ai gan gyfarwyddwr, y trysorydd, ysgrifennydd, prif weithredwr, rheolwr neu swyddog arall yn y cwmni ac (yn achos corfforaeth) y maer, cadeirydd, llywydd neu glerc y dref.

Nodiadau i gyflafareddwyr

Os ydych chi'n:

- gyflafareddwr; neu
- ACAS (mewn hawliad dan Ddeddf 1996 fel y'i cymhwyswyd a'i addasu gan Orchymyn ACAS (Cymru a Lloegr) 2001),

sydd wedi cael ei enwi yn ddiffynnydd yn y ffurflen hawlio, mae'r nodiadau uchod yr un mor berthnasol i chi ag y maent i unrhyw ddiffynnydd arall.

Os oeddech chi, neu os ydych chi:

- yn gyflafareddwr yn y cyflafareddiad a arweiniodd at yr hawliad hwn; ac
- os nad ydych yn cael eich enwi fel diffynnydd,

mae'r ffurflen hawlio hon yn cael ei hanfon atoch er gwybodaeth.

Fe gewch chi naill ai:

- wneud cais (gyda rhybuddiad yn unig i'r hawlydd) i gael eich gwneud yn ddiffynnydd
- neu gyflwyno sylwadau i'r llys (gweler paragraff 4.3 y cyfarwyddyd ymarfer i Ran 62).

Evidence

If you wish to rely on evidence before the court, you must file and serve your written evidence within *(21 days) ( ) of the date the claim form was served on you.

Statement of truth

The acknowledgment of service must be signed by you or by your solicitor. Where the acknowledgment of service is not signed by your solicitor and you are a registered company or corporation, it must be signed by either a director, the treasurer, secretary, chief executive, manager or other officer of the company and (in the case of a corporation) the mayor. Chairman, president or town clerk.

Notes for arbitrators

If you are:

- an arbitrator; or
- ACAS (in a claim under the 1996 Act as applied with modification by the ACAS (England and Wales) Order 2001),

who has been named as a defendant in the claim form, the above notes apply to you as they do to any other defendant.

If you were, or are:

- an arbitrator in the arbitration which led to this claim; and
- if you are not named as a defendant;

this claim form is sent to you for information.

You may either:

- make a request (with notice only to the claimant) to be made a defendant
- may make representations to the court *(see paragraph 4.3 of practice direction to Part 62)*

**Dylai'r hawlydd ei newid lle bo'n briodol os yw'r ffurflen hawlio i'w chyflwyno y tu allan i'r awdurdodaeth (gweler RhTS Rhan 6)*

**Claimant should alter where appropriate if the claim form is to be served out of the jurisdiction (see CPR Part6)*